

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Porthcawl Dental Care, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 19 Ebrill 2022

Dyddiad cyhoeddi: 20 Gorffennaf 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Porthcawl Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ar 19 Ebrill 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Porthcawl Dental Care wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn.

Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd a darpariaeth y gwasanaeth yn seiliedig ar ganllawiau'r llywodraeth. Mae'r newidiadau hyn yn galluogi'r cleifion i gael eu trin mor ddiogel â phosibl. Rhoddodd y staff wybodaeth berthnasol i'r cleifion dros y ffôn ynghylch COVID-19.

Rydym wedi gwneud argymhelliad i symud y rhestr brisiau ar gyfer triniaethau preifat y gwasanaeth i rywle y gall y cleifion ei gweld yn hawdd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid arddangos y rhestr brisiau ar gyfer triniaethau preifat lle gall y cleifion ei gweld yn hawdd.
- Mae gan y practis staff sy'n siarad Cymraeg a dylai'r practis ei gwneud yn gliriach bod gwasanaeth dwyieithog ar gael.
- Mae angen ychwanegu manylion sefydliadau a allai gynorthwyo claf â'i gŵyn at y broses gwyno ynghyd â manylion yr hyn sy'n digwydd os na ellir cytuno ar ddatrysiad.
- Roedd enw'r aelod o staff a oedd yn gyfrifol am ymdrin â chwynion yn anghyson mewn sawl dogfen. Mae angen diweddarau'r polisi a gweithdrefn gwyno ac unrhyw ddogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth am gwynion gydag enw'r person cywir.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom ofal cleifion yn cael ei ddarparu mewn modd gofalgarn a phroffesiynol. Roedd tystiolaeth o hyn hefyd gan ddiffyg cwynion a dderbyniwyd yn y practis a chan y dulliau dymunol a welsom ar y diwrnod.

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod angen gwella'r practis mewn sawl maes er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r rheoliadau a safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Nodwyd materion amgylcheddol a glanweithdra sydd angen sylw. Gwelsom fod lloriau wedi'u staenio yn y dderbynfa ac yn ystafell y staff. Gwelwyd droriau, cypyrddau ac arwynebau gweithio llychlyd a budr yn yr ystafell ddihalogi.

Nodwyd gwelliannau i'r trefniadau diogelwch tân sy'n cynnwys cynnal asesiad risg tân, hyfforddiant staff cyfredol ac ymarferion tân.

O'r deg cofnod claf y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom eu bod yn cael eu cadw i safon dda. Roedd y nodiadau'n glir, yn ddarllenadwy, ac o ansawdd da ar y cyfan, gyda digon o wybodaeth am y claf a'i driniaeth yn cael ei chofnodi.

Achosion o sicrwydd ar unwaith:

- Gwelsom nad oedd amgylchedd yr ystafell ddihalogi yn cael ei gynnal a'i gadw â safonau priodol o lanweithdra a hylendid o ran offer deintyddol y gellir eu hailddefnyddio a deunyddiau deintyddol a ddefnyddir at ddiben cynnal practis deintyddol preifat. Felly, ni allem fod yn sicr bod y practis deintyddol yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer sterileiddio offer. Rhaid gwella amgylchedd yr ystafell ddihalogi i'r safonau disgwyledig er mwyn caniatáu proses ddihalogi a fydd yn gwneud offer deintyddol y gellir eu hailddefnyddio yn ddiogel i'w defnyddio ymhellach. Rhaid i hyn gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - Glanhau a thynnu'r gweddillion a welwyd yn y man sydd wedi'i rwystro rhwng y sinc newydd a'r cypyrddau
 - Glanhau, tynnu neu adnewyddu deunyddiau a gwrthrychau sy'n cael eu storio ar hyn o bryd yn y cypyrddau a dreir budr
 - Glanhau pob arwyneb gwaith
 - Aildrefnu a thynnu eitemau sydd wedi dyddio sy'n cael eu storio yn yr oergell
 - Cwblhau profion dyfeisiau cludadwy ar bob eitem drydanol
 - Rhaid ystyried gwneud gwaith adfer pellach i sicrhau na fydd amgylchedd yr ystafell ddihalogi yn dirywio i'r un graddau yn y dyfodol
- Gwelsom nad oedd unrhyw asesiad risg tân ar waith ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn y practis. Mae angen gwneud gwelliannau ar unwaith i drefniadau diogelwch tân y practis, yn benodol gweithredu asesiad risg tân ac ymarferion tân. Mae angen cadw'r rhain yn gyfredol i sicrhau bod rhagofalon digonol yn cael eu cymryd yn erbyn y risg o dân.

- Canfuom nad oedd cadarnhad ar gael i gadarnhau bod y practis wedi cofrestru ei offer pelydr-X gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae angen cwblhau cofrestriad gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar frys i roi sicrwydd bod y practis wedi bodloni'r holl ofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r broses hon.
- Gwelsom fod cofnodion papur cleifion yn cael eu storio mewn cwpwrdd heb ei gloi yn yr ystafell aros. Mae angen adolygu'r cofnodion i sicrhau bod hen gofnodion yn cael eu gwaredu'n briodol. Mae angen gwella'r gwaith o storio cofnodion cleifion sydd wedi'u harchifo er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu storio'n ddiogel. Mae angen adolygu'r cofnodion hefyd yn erbyn amserlenni cadw, a chael gwared ar gofnodion perthnasol yn ddiogel. Rhaid i unrhyw gofnodion y mae angen eu cadw fod yn hygyrch os oes angen.

Mae'r practis wedi rhoi manylion i ni am y camau a gymerwyd / y camau sydd i'w cymryd, ac rydym wedi cael ein sicrhau bod trefniadau addas wedi'u gweithredu mewn perthynas â'r holl faterion uchod.

Yn gyffredinol, rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gwella'r amgylchedd, yn benodol y lloriau yn y dderbynfa ac yn ystafell y staff, a oedd wedi'u staenio. Roedd angen lloriau newydd yn yr ystafell ddihalogi i gydymffurfio â safonau rheoli heintiau.
- Mae angen glanhau ystafell y staff, yn benodol yr oergell, a lle bo'n bosibl, ei thacluso a'i threfnu'n well.
- Mae angen i asesiad risg amgylcheddol fod ar waith a'i ddiweddarau'n rheolaidd i sicrhau bod y practis yn addas at y diben.
- Mae angen adolygu'r polisi croes-heintio i sicrhau bod y gwaith sydd wedi'i ddirprwyo i'r staff yn gliriach a bod eu cyfrifoldebau'n amlwg.
- Mae angen cwblhau archwiliadau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 bob blwyddyn.
- Nid oedd archwiliad rhoi'r gorau i ysmegu wedi'i gwblhau ac rydym yn argymhell bod hwn yn cael ei ychwanegu at y rhaglen archwilio.
- Mae angen llunio amserlen archwilio. Bydd hyn yn helpu i gadw'r bwlch amser cywir rhwng archwiliadau.
- Dylid ystyried penodi arweinydd dihalogi penodol. Bydd hyn yn helpu i wella perchnogaeth ac arweinyddiaeth yn y maes hwn.
- Dylid ystyried cael clo ar y giât gefn, a fyddai'n rhoi cam diogelwch ychwanegol i sicrhau bod y biniau gwastraff clinigol yn aros yn ddiogel.
- Mae angen tynnu'r eitemau sydd wedi dyddio yn y pecynnau cymorth cyntaf a rhoi stoc newydd yn eu lle. Dylid ystyried cynnwys rhestr o gynnwys pob blwch i'r pecynnau a chynnwys parasetamol.

- Mae angen diweddarau'r polisi diogelu i adlewyrchu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn lle gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Mae angen i'r polisi gynnwys manylion y tîm diogelu lleol a siart lif cyfeirio cyflym i helpu i arwain y staff pe bai mater diogelu'n codi. Mae angen i'r practis ddefnyddio gwefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru i sicrhau bod ei holl wybodaeth ddiogelu yn gyfredol ac yn berthnasol.
- Dylai'r practis gofnodi'r hyfforddiant parhaus y mae'r staff yn ei gael ar ddefnyddio'r dyfeisiau ac offer meddygol y maent yn eu defnyddio yn y practis.
- Mae angen cwblhau asesiad risg ymbelydredd.
- Mae angen i'r dogfennau amddiffyn rhag ymbelydredd gynnwys manylion a dulliau adnabod yr ardaloedd a reolir.
- Mae angen modd o gofnodi cymhwysedd o ran defnyddio offer a gweithdrefnau pelydr-X yn dilyn hyfforddiant.
- Mae angen gwella gweithgareddau monitro sicrwydd ansawdd a'u gweithredu ar gyfer y gweithdrefnau ysgrifenedig, y protocolau a'r offer.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion y cleifion a adolygwyd yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da gyda digon o wybodaeth am y claf a'i driniaeth.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom grŵp staff a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac a oedd yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w gleifion.

Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau amrywiol ar waith, ond mae angen eu gwella er mwyn sicrhau eu bod yn benodol ar gyfer y practis, eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a bod y staff yn deall ganddynt beth yw eu rôl a'u cyfrifoldebau.

Roedd arfarniadau a sesiynau goruchwyllo wedi dod i ben ers COVID-19 ac mae angen ailgyflwyno'r rhain.

Gellid cofnodi data hyfforddiant yn well a dylid ystyried gweithredu cofnod o hyfforddiant. Byddai hyn yn galluogi'r staff i gael trosolwg o'r holl hyfforddiant yn hytrach na gorfod chwilio pob ffeil hyfforddiant.

Roedd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal. Mae cofnodion yn cael eu cofnodi a'u cadw ar ffeil. Mae'r staff yn cael eu hannog i gymryd rhan a chyfrannu at eitemau ar yr agenda.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen cwblhau'r canllaw i gleifion i gynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae angen i'r ddogfen hon fod ar gael i'r cleifion ar gais.
- Byddai'n fuddiol darparu'r datganiad o ddiben mewn fformat electronig. Byddai hyn yn sicrhau y gellid gwneud newidiadau'n hawdd a'i fod ar gael i'r cleifion ar gais ac ar eich gwefan.
- **Mae angen adolygiad o'r holl bolisiau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn benodol i'r practis. Mae angen i ddyddiadau cyhoeddi ac adolygu fod yn glir ac wedi'u cofnodi fel tystiolaeth o bryd cafodd polisiau eu diweddarau. Mae angen i'r staff fod yn gyfarwydd â'r holl bolisiau i sicrhau eu bod yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau.**
- Mae angen adolygiad o hyfforddiant y staff i sicrhau bod hyfforddiant sydd wedi dod i ben yn cael ei gwblhau, yn benodol diogelwch tân.
- Dylid ystyried cael cofnod hyfforddiant staff. Byddai hyn yn helpu i gael golwg gyffredinol ar gydymffurfedd hyfforddiant a sicrhau y gellir trefnu cyrsiau heb fod angen chwilio pob ffeil hyfforddiant staff.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn eu cydberthynas a'u rhyngweithio â'i gilydd.

Rhoddir manylion y pryderon sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a chatau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 14 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd pob un o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn y practis am fwy na dwy flynedd.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan gleifion ar yr holiaduron yn cynnwys:

“Mae'r deintydd yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus”

“Staff hynod o gyfeillgar; bob amser yn gefnogol iawn”

“Proffesiynol iawn”

Ni roddodd unrhyw un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur sylwadau ar sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu.

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis oherwydd y pandemig. Mae cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff a'r chleifion ynghyd â gorsafoedd diheintio dwylo ym mhob ran o'r practis.

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn yr ardaloedd cymunol, roedd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith a dim ond cleifion ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw a allai ymweld â'r practis. Roedd rhai cadeiriau yn yr ystafell aros wedi'u tapio i atal y cleifion rhag defnyddio'r rhain. Mae'r holl eitemau diangen wedi'u symud o'r ystafelloedd triniaeth cymaint â phosibl. Teimlodd 13 allan o'r 14 o gleifion a gwblhaodd holiaduron ei bod yn amlwg iawn bod gan y practis weithdrefnau sy'n cydymffurfio â gofynion COVID-19 ar waith yn ystod eu hamser yn y practis.

Clywsom y staff yn cwblhau cwestiynau sgrinio COVID-19 ac yn rhoi gwybodaeth am daith y claf i'r cleifion a oedd yn ffonio'r practis.

Roedd pob claf heblaw un a gwblhaodd holiadur wedi dweud wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynglŷn â sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ystafell aros. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am gwynion, gan gynnwys proses 'Gweithio i Wella' y GIG. Roedd taliadau triniaeth y GIG yn cael eu harddangos wrth ddesg y dderbynfa, ond byddem yn argymhell bod y rhestr brisiau ar gyfer triniaethau preifat hefyd yn cael ei harddangos yn fwy amlwg. Ar adeg yr ymweliad, roedd yr wybodaeth hon wedi'i harddangos ar hysbysfwrdd y tu ôl i'r dderbynfa ac nid yw'n hawdd i'r cleifion ei gweld.

Roedd enw'r practis i'w weld yn glir o'r tu allan ac roedd enwau'r deintyddion wedi'u harddangos wrth ymyl mynedfa'r practis. Roedd oriau agor a rhif ffôn mewn argyfwng hefyd wedi'u harddangos.

Gwelsom arwyddion o fewn y practis gyda'r geiriau 'Dim Ysmygu' arnynt, a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar fangreodd di-fwg.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym mai Saesneg oedd eu dewis iaith a bod gwybodaeth am ofal iechyd ar gael iddynt yn yr iaith honno. Cadarnhaodd un holiadur fod y claf yn hapus i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg a bod gwybodaeth ar gael iddo yn y ddwy iaith.

Dywedodd naw o'r 14 o gleifion wrthym na chynigiwyd y cyfle i siarad Cymraeg iddynt. Nododd dau ymateb y gofynnwyd iddynt a dywedodd dau glaf eu bod weithiau'n cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym fod gan y practis ddau aelod o staff sy'n siarad Cymraeg, ond ni welwyd unrhyw wybodaeth i hysbysebu hyn i'r cleifion. Rydym yn argymhell bod y practis yn ei gwneud yn gliriach bod gwasanaeth dwyieithog ar gael.

Roedd rhywfaint o wybodaeth y GIG wedi'i harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedodd y staff wrthym mai prin iawn oedd y cleifion sydd am gael gwybodaeth yn Gymraeg. Pe bai claf yn gofyn am hyn, byddai'r aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn ymdrechu i ddarparu hyn.

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus, a chlywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.

Teimlodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn cynnal sgysiau preifat â'r cleifion yn yr ystafelloedd triniaeth i ffwrdd o'r dderbynfa / man aros.

Gwelsom fod naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y man aros, felly yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynglŷn â'u gofal, i'r graddau yr oeddent yn dymuno hynny. Dywedodd pob claf fod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael pan oedd angen triniaeth arnynt.

Gwelsom amrywiaeth o bosteri a thaflenni gwybodaeth yn y man aros, gan gynnwys gwybodaeth benodol i'r practis am y cynlluniau deintyddol preifat y mae'n eu cynnig.

Gwelwyd posteri yn atgoffa'r cleifion am gadw pellter cymdeithasol a gwisgo masgiau wyneb.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Gwelsom y practis yn ymdrechu i ddarparu gofal deintyddol mewn modd amserol, a gwnaethom arsylwi ar hyn yn ystod ein harolygiad. Mae angen gwneud pob apwyntiad dros y ffôn.

Dywedodd y staff wrthym am y broses ar gyfer hysbysu'r cleifion am unrhyw oedi i amseroedd eu hapwyntiadau. Teimlodd deg allan o'r 14 o gleifion a gwblhaodd holiadur ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Disgrifiodd y pedwar holiadur arall y broses fel un 'weddol hawdd'.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt nifer o apwyntiadau brys ar gael bob dydd. Mae'r deintyddion hefyd yn cyflenwi ar ôl i'r ddeintyddfa gau yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau ar gyfer unrhyw glaf sy'n dioddef trawma, poen a gwaedu difrifol. Mae'r rhain yn cael eu brysennu dros y ffôn cyn cytuno ar ddull gweithredu gyda'r claf.

Ar adeg yr arolygiad, gwelsom rai cyfyngiadau oherwydd COVID-19 yn dal i fod ar waith, a dim ond y cleifion ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw oedd yn dod i

mewn i'r practis. Roedd y drws i'r practis wedi'i gloi, gyda'r staff yn ateb ac yn cyfeirio'r cleifion i mewn i'r ddeintyddfa er mwyn helpu i leihau faint o amser y mae claf yn ei dreulio ar y safle.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom adolygu cofnodion deg claf a chanfod bod tystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau ar gyfer y cleifion hynny.

Cadarnhaodd 13 allan o'r 14 o gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Roedd gan yr holl gofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu hanes meddygol diweddaedig wedi'i gofnodi yn y nodiadau.

Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisi cydraddoldeb a hawliau dynol ar waith, ynghyd â nifer o bolisiau ategol eraill i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y practis. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg a bod hyfforddiant ar gael iddynt.

Dywedodd 13 o'r cleifion wrthym drwy ein holiadur eu bod yn teimlo y gallent gael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr amser cywir a dywedodd 12 o'r cleifion nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael mynediad at y practis hwn neu ei ddefnyddio.

Er gwaethaf nifer y polisiau sydd ar waith i amddiffyn y staff a'r ymwelwyr rhag gwahaniaethu, prin oedd y ddealltwriaeth gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ynghylch y maes hwn. Argymhellir bod y staff yn cwblhau hyfforddiant i gael dealltwriaeth well o'r maes hwn a bod polisiau'n cael eu darllen a'u deall i alluogi'r staff i ymdrin ag unrhyw faterion cydraddoldeb a godir.

Gwelsom fod gan y practis esgynfa i fynd i mewn i'r adeilad. Roedd yr holl ystafelloedd triniaeth wedi'u lleoli ar y llawr daear ac yn hygyrch i unrhyw un sy'n defnyddio cymorth symudedd / cadair wthio.

Roedd y man aros a'r dderbynfa i lawr dau ris ac roedd y toiled y tu ôl i'r dderbynfa. Ni allai unrhyw un nad oedd yn gallu mynd i lawr y grisiau / eu dringo fynd i'r ardaloedd hyn ac nid oedd drws y toiled yn ddigon llydan i gymhorthion symudedd.

Ar adeg ein hymweliad, roedd mynediad i'r toiled yn gyfyngedig i achosion brys yn unig. Roedd arwyddion ar gyfer y cyfleuster ac roedd cyfleusterau ymolchi a sychu dwylo ar gael.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd y broses gwyno wedi'i harddangos yn y man aros, yn Gymraeg a Saesneg, ynghyd â phroses gwyno'r GIG, 'Gweithio i Wella'. Roedd yr wybodaeth am gwynion yn cynnwys y broses y mae angen ei dilyn, amserlenni ar gyfer ymateb, enw'r aelod o staff sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion, a manylion AGIC. Gwelsom rywfaint o wybodaeth ar goll o'r weithdrefn y dylid ei chynnwys. Mae angen ychwanegu manylion sefydliadau a allai gynorthwyo claf gyda'i gŵyn, ynghyd â manylion yr hyn sy'n digwydd os na ellir cytuno ar ddatrysiad.

Gwnaethom nodi bod enw'r aelod o staff sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion yn anghyson mewn sawl dogfen. Mae angen diweddarau'r polisi a gweithdrefn gwyno ac unrhyw ddogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth am gwynion gydag enw'r person cywir.

Cedwir pob cwyn mewn ffolder. Nid yw'r practis wedi derbyn unrhyw gwynion ers dros ddwy flynedd.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn dosbarthu eu holiaduron eu hunain i gasglu adborth am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae holiaduron fel arfer yn cael eu cadw yn y man aros, ond maent wedi cael eu tynnu oherwydd COVID-19. Hyd nes y bydd y rhain yn cael eu hailgyflwyno, gall adborth y cleifion gael ei roi ar lafar neu dros yr e-bost. Ar adeg ein harolygiad, nid oedd unrhyw adborth wedi'i roi i'r practis drwy'r dull hwn.

Cwblhawyd yr archwiliad diwethaf o adborth cleifion ym mis Chwefror 2020. Dangosodd yr archwiliad ganlyniadau cadarnhaol gyda'r cleifion yn sgorio eu gofal fel rhagorol.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n dda yn gyffredinol y tu allan. Roedd mynediad i'r adeilad yn anghyfyngedig, gan alluogi unrhyw un â chymhorthydd symudedd / cadair wthio i fynd i mewn i'r adeilad.

Fodd bynnag, yn y tu mewn, gwelsom ardaloedd o'r practis yr oedd angen eu gwella. Gwelsom fod y lloriau yn y dderbynfa ac yn ystafell y staff wedi'u staenio. Dywedwyd wrthym fod llawr yr ystafell ddihalogi ar fin cael ei newid i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau rheoli heintiau. Gwnaethom nodi materion glendid yn yr ystafell ddihalogi ond rydym wedi cael cadarnhad bod y materion a nodwyd wedi cael sylw. Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol, gyda 12 allan o'r 14 o gleifion a gwblhaodd holiadur yn nodi bod y practis deintyddol yn lân iawn yn eu barn nhw.

Roedd ystafell amlbwrpas yn cael ei defnyddio fel ystafell newid i'r staff, storfa ac ystafell stoc, yn ogystal â chynnwys tegell y staff a'r oergell fwyd. Roedd yr ystafell yn anniben ac roedd staen ar yr oergell. Mae angen glanhau'r ystafell, yn benodol yr oergell, a lle bo'n bosibl, ei thacluso a'i threfnu'n well.

Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â'r gwres, y goleuadau neu'r awyru.

Gwelsom fod offer diogelwch tân ar gael mewn lleoliadau gwahanol o amgylch y practis, ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu'n ddiweddar. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw asesiad risg tân ar waith na thystiolaeth bod ymarferion tân wedi'u cynnal. Gwelsom fod gan yr holl staff hyfforddiant diogelwch tân sydd wedi dyddio. O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith gan y practis y byddai'r meysydd hyn yn cael sylw ar frys. Mae'r practis wedi rhoi manylion i ni am y camau y mae wedi'u cymryd, ac rydym wedi ein sicrhau ei fod wedi gwella ei ragofalon diogelwch tân.

Gwelsom fod arwyddion ar gyfer allanfeydd tân. Roedd arwyddion dim ysmegu a phoster iechyd a diogelwch wedi'u harddangos, gan gynnwys tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr.

Gwelsom fod asesiad risg COVID-19 ar waith, dyddiedig mis Gorffennaf 2020. Fodd bynnag, nid oedd asesiad risg amgylcheddol. Mae angen cwblhau hwn a'i ddiweddarau'n rheolaidd i sicrhau bod y practis yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod gan y practis nifer o bolisiau ar waith sydd ar y cyd yn ffurfio'i weithdrefnau atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys hylendid dwylo, gwaredu gwastraff clinigol a threfniadau rheoli heintiau. Gwnaeth ein hadolygiad o'r polisi croes-heintio bwysleisio bod angen gwneud y gwaith sydd wedi'i ddirprwyo i'r staff a'u cyfrifoldebau yn gliriach.

Gwelsom nad oedd yr ystafell ddihalogi benodol yn addas i'r diben ar adeg ein hymweliad. Gwelsom fod yr ystafell yn cael ei chadw'n wael o ran ei chynllun a'i glanweithdra. Gwelsom fod sinc sydd newydd ei osod wedi arwain at ardal wedi'i blocio, lle'r oedd gweddillion wedi disgyn ac nid oedd modd eu glanhau'n hawdd. Yn ogystal, gwelsom nad oedd modd agor cwpwrdd yn llawn oherwydd y sinc newydd. Roedd cypyrddau a droriau'n anhrefnus ac yn aflan. Roedd yr ardal a ddefnyddiwyd ar gyfer offer glân yn amlwg yn llychlyd. Roedd yr oergell yn yr ystafell yn anhrefnus ac yn cynnwys hen eitemau sydd wedi dyddio yr oedd angen eu tynnu. Gwelsom nad oedd yr eitemau trydanol yn yr ystafell hon wedi cael profion dyfeisiau cludadwy. O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, gwnathom ofyn am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith o'r trefniadau i'w rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Rydym wedi

cael manylion y camau a gymerwyd ac rydym wedi cael ein sicrhau bod systemau addas wedi'u gweithredu mewn perthynas â'r uchod.

Gwelsom fod y llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio yn cael eu cwblhau ac roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol priodol ar gyfer gweithio yn y maes hwn.

Nid oedd yr archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cael ei gwblhau'n flynyddol. Felly, mae angen diweddarau hwn.

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant rheoli heintiau. Fodd bynnag, oherwydd absenoldeb nyrs ddeintyddol a gweithiwr newydd, roedd diffyg arweinyddiaeth ar ddihalogi. Rydym yn argymhell y dylid ystyried penodi arweinydd dihalogi er mwyn gwella'r broses ddihalogi.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin a gwaredu gwastraff. Gwelsom wastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel ac ar wahân i wastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom nad oedd clo ar y giât i fynedfa gefn yr eiddo. Er bod yr ardal wedi gordyfu, mae'r gwastraff yn cael ei gasglu o'r fan hon, felly dylid ystyried cael clo ar y giât i sicrhau na fyddai unrhyw un yn mynd i mewn i geisio agor y biniau gwastraff clinigol.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis drefniadau priodol ar waith gyda'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ymdrin ag unrhyw anafiadau o offer miniog.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau priodol ar waith i ymdrin ag achosion brys. Roedd polisi argyfyngau meddygol ar waith a oedd yn cynnwys rhoi meddyginiaethau i'r cleifion a'u trin a'u gwaredu. Roedd offer dadebru ar gael i'w defnyddio.

Gwelsom fod y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu storio mewn lleoliad y gallai'r staff ei gyrchu'n hawdd.

Roedd systemau ar waith i ddangos bod gwiriadau ar y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Gwelsom fod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achos brys i gyd o fewn eu dyddiad.

Y prif ddeintydd yw'r swyddog cymorth cyntaf, ac roedd ganddo hyfforddiant cyfredol. Gwelsom fod dau becyn cymorth cyntaf ar gael. Gwelsom fod rhai o'r eitemau a gynhwyswyd ynddynt yn hen ac yn amherthnasol. Mae angen cael gwaredu ar y rhain a rhoi stoc yn eu lle sydd o fewn ei dyddiad. Rydym yn argymhell y gallai eitemau ychwanegol, gan gynnwys parasetamol ac Optrex, fod yn ychwanegiadau defnyddiol at y pecyn cymorth cyntaf.

Gwelsom padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

Dywedodd y staff wrthym am y gweithdrefnau y byddent yn eu cymryd pe bai argyfwng neu pe bai'n rhaid iddynt adrodd am ddigwyddiad anffafriol sy'n ymwneud â chyffuriau.

Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan yr holl staff clinigol hyfforddiant cyfredol Lefel 2 ar ddiogelu oedolion a phlant. Gwelsom fod gan reolwr y practis hyfforddiant diogelu sydd wedi dod i ben ac argymhellwn y dylid diweddarau hwn.

Y prif ddeintydd oedd arweinydd diogelu'r practis a dywedodd y staff wrthym y byddai unrhyw bryderon yn cael eu hadrodd iddo.

Mae angen diweddarau'r polisiâu diogelu y gwnaethom eu hadolygu. Canfuom fod y ddogfen yn rhy generig ac nid yn benodol ar gyfer y practis. Gwelsom fod cyfeiriadau at wiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn y ddogfen. Newidiodd hyn i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn 2012, felly er gwaethaf y ffaith mai Mawrth 2022 oedd dyddiad adolygu'r ddogfen, ni allem gael ein sicrhau bod y cynnwys wedi cael ei adolygu'n briodol.

Gwelsom hefyd nad oedd y polisi diogelu yn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol na siart lif a fyddai'n rhoi mynediad cyflym at y camau y mae angen eu cymryd pe bai pryder yn codi. Ni allai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym â phwy y byddent yn cysylltu'n lleol pe bai mater yn codi. Mae angen cynnwys manylion y tîm diogelu lleol a siart lif yn y polisi a diweddarau'r staff.

Gwelsom fod gan y practis gopi o hen weithdrefnau amddiffyn plant Cymru gyfan. Pwyleisiodd ein hadolygiad fod gwybodaeth sydd wedi dyddio yn y weithdrefn hon. Gwnaethom argymhell bod y practis yn defnyddio gwefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru i sicrhau bod ei holl wybodaeth ddiogelu yn gyfredol.

Gwelsom fod gan y staff wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ffeil a oedd yn cael ei gynnal cyn eu cyflogaeth.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddefnyddio'r offer a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y dogfennau sefydlu staff. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod unrhyw hyfforddiant parhaus ar ddefnyddio'r offer.

Gwelsom fod yr offer deintyddol mewn cyflwr da ac yn ddigonol o ran nifer. Roedd trefniadau digonol ar waith i ymdrin ag unrhyw ddyfais neu system sy'n methu.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig yn ddiogel a chanfod bod y rhan fwyaf o'r dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ar gael ac yn gyfredol. Fodd bynnag, canfuom rai meysydd yr oedd angen rhoi sylw iddynt ar unwaith.

Gwelsom nad oedd y practis wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i sicrhau ei fod wedi bodloni'r holl ofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r broses hon. Gwnaethom ddyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio ynghylch hyn ac, wedi hynny, rydym wedi cael cadarnhad bod y cam hwn wedi'i gwblhau.

Nid oeddem yn gallu dod o hyd i fanylion a dulliau adnabod yr ardaloedd a reolir yn y dogfennau. Mae angen cwblhau'r rhain a diweddaru rheolau lleol.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod gan y deintyddion hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfredol. Fodd bynnag, ni allem weld tystiolaeth bod cymhwysedd wedi'i asesu yn dilyn hyfforddiant.

Nid oedd tystiolaeth bod gweithgareddau monitro sicrwydd ansawdd yn cael eu cynnal o ran gweithdrefnau ysgrifenedig, protocolau ac offer. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i asesiad risg ymbelydredd.

Gofal effeithiol

Gofal diogel ac sy'n effeithiol yn glinigol

Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer derbyn, asesu a thrin cleifion a gwneud diagnosis ar eu cyfer. Mae hyn oherwydd bod manylion wedi'u dogfennu yn ei ddatganiad o ddiben ac mewn polisiâu a gweithdrefnau.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ceisio arweiniad proffesiynol, a lle bo'n berthnasol, yn defnyddio hwn i ddiweddaru eu polisiâu eu hunain. Roedd tystiolaeth o hyn yng ngweithdrefn weithredu safonol y practis, a oedd wedi'i diweddaru yn unol â diweddariadau a chynghor gan gyrff allanol, gan gynnwys y canllawiau a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd gan y practis bolisi sicrhau ansawdd ar waith a dywedwyd wrthym fod y practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion. Gwelsom fod archwiliadau wedi'u cwblhau, a oedd yn cynnwys archwiliad ansawdd radiograffau, archwiliad cadw cofnodion, archwiliad gwrthficrobaidd, ac archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Fodd bynnag, nid oedd yr archwiliad dihalogi yn cael ei gwblhau'n flynyddol, gyda'r archwiliad diwethaf wedi'i gwblhau cyn COVID-19. Roedd yr archwiliad radiograffau fod i gael ei adolygu ym mis Ionawr 2021. Rydym

yn argymell llunio amserlen archwilio. Bydd hyn yn helpu i gynnal y bylchau amser cywir rhwng archwiliadau.

Nid oedd archwiliad rhoi'r gorau i ysmygu wedi'i gwblhau ac rydym yn argymell bod hwn yn cael ei ychwanegu at y rhaglen archwilio.

Dywedwyd wrthym fod rhywfaint o adolygiad anffurfiol gan gymheiriaid o'r staff clinigol yn cael ei gynnal.

Dywedwyd wrthym nad yw'r practis yn gwneud unrhyw waith ymchwil.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi diogelu data a chyfrinachedd staff ar waith. Gwelsom fod cofnodion cleifion cyfredol yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel. Fodd bynnag, canfuom fod cofnodion papur cleifion yn cael eu storio mewn cwpwrdd heb ei gloi yn y man aros. Derbyniodd y practis hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio ynghylch y mater hwn ac rydym wedi cael ein sicrhau bod hen gofnodion wedi'u dinistrio'n ddiogel a bod clo wedi'i osod ar y cwpwrdd i sicrhau eu bod yn cael eu storio'n ddiogel.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu deg set o gofnodion cleifion a daethom i'r casgliad bod y rhain yn cael eu cadw i safon dda. Roedd y nodiadau yn glir, yn ddarllenadwy, ac o ansawdd da ar y cyfan.

O'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom fod ganddynt ddigon o wybodaeth am hanes deintyddol y cleifion, y rhesymau dros fynychu, gwybodaeth am driniaeth, cydsyniad, a gwybodaeth adalw.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae gan y prif ddeintydd (perchennog y practis) gyfrifoldeb cyffredinol am y gwaith o reoli'r practis. Mae'n cael ei gefnogi gan ddeintydd arall, un hylenydd, rheolwr practis / derbynnydd, derbynnydd rhan-amser arall, a thair nyrs ddeintyddol, y mae un ohonynt dan hyfforddiant. Gwelsom fod gofal deintyddol preifat yn cael ei ddarparu yn unol ag amodau cofrestru'r practis.

Gwelsom y tîm staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn eu cydberthynas a'u rhyngweithio â'i gilydd a'u cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben, a oedd yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y ddogfen wedi'i

hysgrifennu â llaw ac rydym yn argymhell bod fersiwn electronig ar gael oherwydd bod angen i'r ddogfen hon fod ar gael i'r cleifion ar gais, bod ar gael ar y wefan, a chael ei chyflwyno i AGIC pan gaiff ei hadolygu a'i diweddarau. Byddai fersiwn electronig yn gwneud y broses o ddiweddarau unrhyw newidiadau yn haws na gorfod ysgrifennu'r ddogfen gyfan.

Nid oedd y daflen wybodaeth i gleifion yn gyflawn. Mae angen diweddarau'r ddogfen hon gyda'r holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Wrth adolygu rhai o'r rhain, canfuom nad oeddent yn adlewyrchu trefniadau gwaith presennol y practis. Mae hyn oherwydd eu bod yn generig ac nad oeddent yn cynnwys gwybodaeth/manylion penodol am y practis.

Prin iawn oedd y polisiau a oedd yn cynnwys dyddiad adolygu a chyhoeddi. Roedd hyn yn cael ei ddogfennu ar ddalen ar wahân. Fodd bynnag, ni allai'r wybodaeth a gasglwyd ddangos bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Felly, ni allem fod yn sicr bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau yn gyfredol ac yn ymwneud â threfniadau gwaith cyfredol. Nodwyd y pryder hwn yn ystod arolygiad blaenorol gan AGIC a chanfuom fod y mater yn parhau yn ystod yr arolygiad hwn. Rydym yn argymhell bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu, eu diweddarau, a'u gwneud yn benodol ar gyfer y practis. Mae angen i systemau gwell fod ar waith i ddangos yn glir pryd y cânt eu cyhoeddi a phryd y mae angen eu hadolygu.

Nid oedd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn sicr ynghylch rhai o'r prosesau y gallai fod angen iddynt eu dilyn, ac roedd hyn yn amlwg wrth drafod diogelu. Mae angen i bob aelod o staff wybod pa bolisiau a gweithdrefnau sydd ar waith a sut mae'r rhain yn effeithio ar eu rôl a'u cyfrifoldebau yn y practis. Dylid gwneud y staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a wneir i'r polisiau a dylid cael system i ddangos bod y staff wedi darllen a deall y polisiau a'r gweithdrefnau.

Roedd gan y prif ddeintydd y cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod unrhyw hysbysiadau, gan gynnwys unrhyw hysbysiadau i AGIC, yn cael eu cyflwyno pe bai unrhyw anafiadau difrifol.

Gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Caiff cofnodion eu cofnodi a'u cadw mewn ffolder fel y gall unrhyw aelod o staff nad yw'n gallu bod yn bresennol eu darllen. Dywedodd y staff wrthym y gallant gyfrannu at yr agenda a thrafodaethau yn y cyfarfodydd.

Y gweithlu

Dywedwyd wrthym am y broses a ddefnyddir i recriwtio staff newydd a bod polisiâu ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflogi a sefydlu staff. Dywedwyd wrthym nad oedd staff asiantaeth wedi cael eu defnyddio ers peth amser. Eglurwyd y broses o sicrhau cymhwysedd, profiad, a gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff asiantaeth.

Cedwir ffeiliau staff, a gwelsom eu bod yn cynnwys tystiolaeth o'u cofrestriad gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, eu contract cyflogaeth, eu himiwnedd yn erbyn hepatitis B, a'u gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o staff yswiriant indemniad proffesiynol, ond ni welwyd tystysgrifau ym mhob un o ffeiliau'r staff.

Roedd yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Y prif ddeintydd sy'n talu am yr holl gofrestriadau ac felly'n sicrhau bod y staff yn parhau i gynnal eu cofrestriad.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban a dywedasant wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon ynghylch y gwaith o ddarparu gofal i'r cleifion, naill ai'n uniongyrchol ag aelod arall o staff neu gorff priodol arall os oedd angen.

Dywedwyd wrthym nad oedd arfarniadau a goruchwyliaeth wedi'u cynnal ers cyn COVID-19, ond y byddant yn dechrau eto. Argymhellir bod arfarniad blynyddol yn cael ei gynnal ar gyfer yr holl staff a'i gadw ar ffeil a bod y staff yn cael eu goruchwyllo.

Gwelsom dystiolaeth fod tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar gyfer pob aelod o staff. Fodd bynnag, nid oedd cofnod hyfforddiant yr holl staff ar waith a oedd yn gallu nodi cydymffurfedd â hyfforddiant yn hawdd. Roedd angen adolygu pob ffeil i weld a yw hyfforddiant staff yn gyfredol. Gwelsom nad oedd hyfforddiant tân wedi'i gwblhau'n flynyddol i'r staff. Trefnwyd hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd i un deintydd ei gwblhau ym mis Ebrill 2022. Rydym yn argymhell bod data hyfforddiant yn cael ei gadw mewn cofnod a'i storio'n ganolog. Bydd hyn yn galluogi rheolwr y practis i sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf. Yn ogystal, mae angen adolygiad o'r holl hyfforddiant i sicrhau bod gan y staff sgiliau a gwybodaeth gyfredol.

Roedd mentrau a gyflwynwyd oherwydd COVID-19 i gefnogi'r staff yn cynnwys rhannu gwybodaeth am gymorth iechyd meddwl a dderbyniwyd gan y bwrdd iechyd ynghyd â chan gyrff proffesiynol eraill. Roedd rhifau cyswllt wedi'u rhannu â'r staff i'w defnyddio os oedd angen cymorth arnynt.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

[illegible]

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Porthcawl Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 19 Ebrill 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid gwella amgylchedd yr ystafell ddihalogi i'r safonau disgwyledig er mwyn caniatáu proses ddihalogi a fydd yn gwneud offer deintyddol y gallir eu hailddefnyddio yn ddiogel i'w defnyddio ymhellach. Rhaid i hyn gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: Glanhau a thynnu'r gweddillion a welwyd yn y man sydd wedi'i rwystro rhwng y sinc newydd a'r cypyrddau	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 13(3)(b)	Mae'r gweddillion o'r ardal sydd anodd ei chyrraedd wedi'u symud ac mae'r llawr yn yr ardal wedi'i mopio â hydoddiant cannydd. Gwiriwyd y cypyrddau am ddeunyddiau diangen ac maent wedi'u tynnu a'u gwaredu, tra bo'r droriau a'r silffoedd yn y cypyrddau wedi'u glanhau a'u diheintio â datrysiad glanhau alcohol. Mae'r arwynebau gwaith hefyd wedi'u glanhau a'u diheintio, ac mae'r holl ddeunyddiau diangen wedi'u tynnu. Mae cynnwys yr oergell wedi'i drefnu i gael gwared ar unrhyw ddeunyddiau nad oes eu heisiau neu sydd wedi dyddio. Cynhaliwyd y prawf dyfeisiau cludadwy ar 20/04/2022 gan gwmni trydanol lleol.	Hywel Price	Disgwyliwn i'r ystafell ddihalogi gael ei hailwampio yn ystod ail hanner Mehefin pan fydd llawr finyl newydd yn cael ei osod yn yr ystafell ddihalogi a'r coridor mynediad. Daeth ffitiwr i fesur ar gyfer yr unedau newydd a'r arwynebau gwaith ar 26 Ebrill.

• Glanhau, tynnu neu adnewyddu deunyddiau a gwrthrychau sy'n cael eu storio ar hyn o bryd yn y cypyrddau a droriau budr • Glanhau pob arwyneb gwaith • Aildrefnu a thynnu eitemau sydd wedi dyddio sy'n cael eu storio yn yr oergell • Cwblhau profion dyfeisiau cludadwy ar bob eitem drydanol Rhaid ystyried gwneud gwaith adfer pellach i sicrhau na fydd amgylchedd yr ystafell ddihalogi yn dirywio i'r un graddau yn y dyfodol.		Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n dylunio set newydd o gypyrddau ar gyfer yr ystafell a fydd yn rhoi arwyneb gweithio parhaus o amgylch dwy ochr yr ystafell ac yn cael gwared ar unrhyw le na ellir ei ddefnyddio neu ardal sydd wedi'i blocio.		
Mae angen gwneud gwelliannau ar unwaith i drefniadau diogelwch tân y practis, yn benodol gweithredu asesiad risg tân ac ymarferion tân. Mae angen cadw'r rhain yn gyfredol i sicrhau bod rhagofalon digonol yn cael eu cymryd yn erbyn y risg o dân.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliadau 22(4)(d) ac (e)	Cymhelir ymarferion tân bob chwe mis gyda'r un cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 26 Ebrill 2022 gan mai dyma'r diwrnod cyntaf y bydd yr holl staff yn gweithio. Mae asesiad risg tân wrthi'n cael ei gynnal a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol.	Hywel Price	Cwblhawyd yr asesiad risg tân ar 26/04/2022, a hyfforddiant staff ar ddefnyddio diffoddwyr tân ar yr un diwrnod.

Mae angen cwblhau cofrestriad gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar frys i roi sicrwydd bod y practis wedi bodloni'r holl ofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r broses hon.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 13(8)	Mae'r practis bellach wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac mae'r dystysgrif wedi'i hanfon atom dros yr e-bost.	Hywel Price	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.
Mae angen gwella'r waith o storio cofnodion cleifion sydd wedi'u harchifo er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu storio'n ddiogel. Mae angen adolygu'r cofnodion hefyd yn erbyn amserlenni cadw, a chael gwared ar gofnodion perthnasol yn ddiogel. Rhaid i unrhyw gofnodion y mae angen eu cadw fod yn hygyrch os oes angen.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliadau 20(1)(b) a (2)(a)(b)	Rwyf wedi cysylltu â Taclus Confidential, a fydd yn casglu sawl bag o gofnodion cleifion diangen i'w dinistrio. Bydd hyn yn rhyddhau llawer o le, gan alluogi'r cofnodion sydd wedi'u harchifo i gael eu storio mewn modd mwy priodol. Yn y cyfamser, mae clo wedi'i roi ar ddrws y cwpwrdd.	Hywel Price	Bydd Taclus yn casglu ein cofnodion sydd wedi dyddio ar 13 Mai, sef ei ddyddiad casglu nesaf yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Hywel Price

Swydd: Prif ddeintydd / rheolwr cofrestredig

Dyddiad: 27 Ebrill 2022

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Porthcawl Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 19 Ebrill 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid arddangos y rhestr brisiau ar gyfer triniaethau preifat lle gall y cleifion ei gweld yn hawdd.	Rheoliad 13 (1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae ein rhestr brisiau ar gyfer triniaethau preifat wedi'i hadolygu ac mae copi wedi'i lamineiddio wedi'i arddangos yn yr ystafell aros.	Sylvia Barnes
Mae gan y practis staff sy'n siarad Cymraeg a dylai'r practis ei gwneud yn gliriach bod gwasanaeth dwyieithog ar gael.	Rheoliad 13 (1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae staff sy'n siarad Cymraeg ar gael a rhoddir gwybod i'r cleifion am hyn trwy arwydd yn yr ystafell aros yn eu cynghori i ofyn i aelod o staff y dderbynfa pe byddai'n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg.	Eifion Roberts

	Safonau Iechyd a Gofal - 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol			
Mae angen ychwanegu manylion sefydliadau a allai gynorthwyo claf â'i gŵyn at y broses gwyno ynghyd â manylion yr hyn sy'n digwydd os na ellir cytuno ar ddatrysiad.	Rheoliad 21 (2) (a)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r cleifion yn cael eu cyfeirio i gysylltu â'r bwrdd iechyd lleol, Arolygiaeth Iechyd Cymru neu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol os ydynt yn dymuno gwneud cwyn gan nad ydynt wedi llwyddo i ddatrys y broblem drwy godi'r mater yn uniongyrchol gyda'r practis.	Sylvia Barnes	Mae'r hysbysiad hwn wedi'i arddangos yn yr ystafell aros ers 18/5/2022.
Roedd enw'r aelod o staff a oedd yn gyfrifol am ymdrin â chwynion yn anghyson mewn sawl dogfen. Mae angen diweddarau'r polisi a gweithdrefn gwyno ac unrhyw ddogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth am gwynion gydag enw'r person cywir.	Rheoliad 21 (1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Roedd gan y dogfennau blaenorol sawl enw arnynt oherwydd newidiadau staff a'r gwaith papur heb gael ei ddiweddarau. Mae hyn bellach wedi'i unioni a Sylvia Barnes yw'r sawl sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion.	Sylvia Barnes	Diweddarwyd y dogfennau 21/5/2022.
Mae angen gwella'r amgylchedd, yn benodol y lloriau yn y dderbynfa ac yn ystafell y staff, a oedd wedi'u staenio. Roedd angen	Rheoliad 22 (2) (a) (c) o Reoliadau Deintyddiaeth	Bydd y llawr daear cyfan, sy'n cynnwys y swyddfa, yr ystafell aros, y coridor a'r ddwy ystafell driniaeth, yn cael ei lanhau'n	Hywel Price	Mae hyn wedi'i drefnu i'w gynnal ar 10/06/2022 pan fydd y practis ar gau ar gyfer

lloriau newydd yn yr ystafell ddihalogi i gydymffurfio â safonau rheoli heintiau.	Breifafat (Cymru) 2017 Safonau Iechyd a Gofal - 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	fasnachol ar 10/06/2022 gan gwmni lleol.		pob apwyntiad ac eithrio apwyntiadau brys gan ein bod yn rhagweld y bydd y broses yn cymryd y rhan fwyaf o'r dydd.
Mae angen glanhau ystafell y staff, yn benodol yr oergell, a lle bo'n bosibl, ei thacluso a'i threfnu'n well.	Rheoliad 22 (2) (a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifafat (Cymru) 2017 Safonau Iechyd a Gofal - 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae ystafell y staff, sydd i fyny'r grisiau, wedi'i defnyddio fel storfa ar gyfer eitemau o'r ystafelloedd triniaeth y bu'n rhaid eu tynnu o'r ystafelloedd triniaeth oherwydd rheoliadau COVID-19. Mae llawer o'r eitemau hyn yn eitemau personol ac, o'r herwydd, wedi'u tynnu o'r practis. Mae desg yn ystafell y staff a fydd yn cael ei thynnu er mwyn cael uned silffoedd yn ei lle ar gyfer storfa ychwanegol er mwyn caniatáu ystafell fwy taclus.	Hywel Price	Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd ar 27/5/2022.
Mae angen i asesiad risg amgylcheddol fod ar waith a'i ddiweddarau'n rheolaidd i sicrhau bod y practis yn addas at y diben.	Rheoliad 16(1)(b) o Reoliadau	Mae asesiad risg wrthi'n cael ei gynhyrchu.	Sylvia Barnes	30/5/2022

	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch			
Mae angen adolygu'r polisi croes-heintio i sicrhau bod y gwaith sydd wedi'i ddirprwyo i'r staff yn gliriach a bod eu cyfrifoldebau'n amlwg.	Rheoliad 8 (1)(m) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae ein polisi croes-heintio yn cael ei ddiweddararu i egluro rolau pob aelod o'r tîm deintyddol o ran rheoli croes-heintio yn y practis.	Sharon Humphreys	27/5/2022
Mae angen cwblhau archwiliadau Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05 bob blwyddyn.	Rheoliad 16(1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth	Mae ein hamserlen archwilio yn cael ei hadolygu a bydd yn cynnwys archwiliad Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05 ynghyd â rhoi'r gorau	Sylvia Barnes, Hywel Price ac Eifion Roberts	Dylai'r archwiliadau hyn gael eu cwblhau erbyn diwedd Mehefin 2022.

	Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi a 3.5 Cadw cofnodion	i ysmysgu ac archwiliad o'n radiograffau.		
Nid oedd archwiliad rhoi'r gorau i ysmysgu wedi'i gwblhau ac rydym yn argymhell bod hwn yn cael ei ychwanegu at y rhaglen archwilio.	Rheoliad 16 (1) (a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi a 3.5 Cadw cofnodion	Mae'r archwiliad hwn wedi'i ychwanegu at ein rhaglen archwilio.	Eifion Roberts	30/6/2022
Mae angen llunio amserlen archwilio. Bydd hyn yn helpu i gadw'r bwlch amser cywir rhwng archwiliadau.	Rheoliad 16 (1)(a) a (2)(d)(ii) o Reoliadau Deintyddiaeth	Mae rhaglen archwilio yn cael ei chreu a fydd yn cynnwys dyddiad	Sylvia Barnes	30/6/2022

	Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi a 3.5 Cadw cofnodion	cwblhau pob archwiliad a dyddiad adolygu.		
Dylid ystyried penodi arweinydd dihalogi penodol. Bydd hyn yn helpu i wella perchnogaeth ac arweinyddiaeth yn y maes hwn.	Safonau lechyd a Gofal - Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd a 7.1 Y gweithlu	Rydym yn penodi arweinydd dihalogi.	Sharon Humphreys	18/5/2022
Dylid ystyried cael clo ar y giât gefn, a fyddai'n rhoi cam diogelwch ychwanegol i sicrhau bod y biniau gwastraff clinigol yn aros yn ddiogel.	Rheoliad 22 (2)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 2.1 Rheoli risg a	Ar hyn o bryd, ni ellir cau'r giât gefn oherwydd gordyfiant y coed a'r eiddew o'i hamgylch. Bydd cwmni garddio lleol yn cael gwared ar y planhigion fel bod modd cau'r giât.	Hywel Price	04/6/2022

	hybu iechyd a diogelwch			
Mae angen tynnu'r eitemau sydd wedi dyddio yn y pecynnau cymorth cyntaf a rhoi stoc newydd yn eu lle. Dylid ystyried cynnwys ychwanegiadau defnyddiol o parasetamol ac Optrex i'r pecynnau.	Rheoliad 13(1)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae cynnwys y pecyn cymorth cyntaf wedi'i adolygu ynghyd â'r baddonau llygaid. Mae'r holl gynnwys sydd wedi dyddio wedi'i dynnu ac wedi'i ddisodli ag eitemau newydd. Mae parasetamol, er nad yw yn y pecynnau cymorth cyntaf, wedi bod ar gael o'r swyddfa, ond mae hwn bellach wedi'i symud i'r pecynnau cymorth cyntaf. Mae Optrex hefyd wedi'i ychwanegu.	Hywel Price	18/5/2022
Mae angen diweddaru'r polisi diogelu i adlewyrchu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn lle gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Mae angen i'r polisi gynnwys manylion y tîm diogelu lleol a siart lif cyfeirio cyflym i helpu i arwain y staff pe bai mater diogelu'n codi. Mae angen i'r practis ddefnyddio gwefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru i sicrhau bod ei holl	Rheoliad 14 (1) (a), (c), (e) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl	Mae arweinydd diogelu wedi'i benodi ac mae ein polisi wedi'i ddiweddaru i gynnwys y siart lif a'r defnydd o ap a gwefan Diogelu Cymru pe bai angen.	Hywel Price	18/5/2022

wybodaeth ddiogelu yn gyfredol ac yn berthnasol.				
Dylai'r practis gofnodi'r hyfforddiant parhaus y mae'r staff yn ei gael ar ddefnyddio'r dyfeisiau ac offer meddygol y maent yn eu defnyddio yn y practis.	Rheoliad 13 (2)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Bydd hyfforddiant y staff yn cael ei gofnodi a'i ychwanegu at eu ffeiliau i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth gyfredol am unrhyw offer y gallai fod angen iddynt eu defnyddio.	Sylvia Barnes	18/5/2022
Mae angen cwblhau asesiad risg ymbelydredd.	Rheoliad 16 (1)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 2.1	Mae hyn wedi'i wneud a'i roi yn ein ffeil ymbelydredd. Dylai gael ei adolygu ar 23/05/2023.	Hywel Price	23/5/2022

	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch			
Mae angen i'r dogfennau amddiffyn rhag ymbelydredd gynnwys manylion a dulliau adnabod yr ardaloedd a reolir.	Rheoliad 13 (1)(a)(b) ac (8) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau Iechyd a Gofal - 3.1 Gofal diogel ac sy'n effeithiol yn glinigol	Cynhaliwyd hyn yn unwaith ar ôl ein harolygiad diwethaf pan dynnwyd sylw at ei absenoldeb, a'i roi yn ein ffeil ymbelydredd.	Hywel Price	20/4/2022
Mae angen modd o gofnodi cymhwysedd o ran defnyddio offer a gweithdrefnau pelydr-X yn dilyn hyfforddiant.	Rheoliad 13 (2)(b) ac 17 (1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Yr unig staff sy'n defnyddio offer pelydr-X yw'r deintyddion, sy'n mynychu cyrsiau amddiffyn rhag ymbelydredd fel rhan o'u datblygid proffesiynol parhaus. Ceir un ffordd o adlewyrchu cymhwysedd mewn archwiliad sylfaenol o'n radiograffau, y mae dros 90% ohonynt o radd 1.	Hywel Price ac Eifion Roberts	Mae hon yn broses barhaus.

	Safonau lechyd a Gofal - 7.1 Y gweithlu			
Mae angen gwella gweithgareddau monitro sicrwydd ansawdd ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio a'u rhoi ar waith ar gyfer y gweithdrefnau ysgrifenedig, y protocolau a'r offer.	Rheoliad 16 (1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi a 3.5 Cadw cofnodion	Mae pob un o'n radiograffau wedi'u graddio a chaiff y rhain eu cofnodi mewn llyfr y gellir cyfeirio ato er mwyn cyfrifo ansawdd ein radiograffau a'r angen am radiograffau ailadroddus. Mae'r cofnod hwn hefyd yn helpu gyda'n harchwiliadau radiograffeg.	Hywel Price	Mae'r gwaith o gadw'r cofnodion hyn wedi'i gynnal am y pum mlynedd diwethaf.
Mae angen cwblhau'r canllaw i gleifion i gynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae angen i'r ddogfen hon fod ar gael i'r cleifion ar gais.	Rheoliad 6 (1), (2), (3) ac Atodlen 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r canllaw i gleifion yn cael ei ddiweddararu ar hyn o bryd i adlewyrchu newidiadau mewn staff a gwybodaeth arall.	Sylvia Barnes	30/6/2022

Byddai'n fuddiol darparu'r datganiad o ddiben mewn fformat electronig. Byddai hyn yn sicrhau y gellid gwneud newidiadau'n hawdd a'i fod ar gael i'r cleifion ar gais ac ar eich gwefan.	Rheoliad 5 (2) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae ein datganiad o ddiben ar gael fel dogfen Word. Cynhyrchwyd hwn dair blynedd yn ôl ond anghofwyd amdano yn ystod pandemig COVID-19. Mae bellach wedi'i ddiweddarau ac mae dyddiad adolygu wedi'i ychwanegu.	Sylvia Barnes	17/5/2022
Mae angen adolygiad o'r holl bolisiau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn benodol i'r practis. Mae angen i ddyddiadau cyhoeddi ac adolygu fod yn glir ac wedi'u cofnodi fel tystiolaeth o pryd cafodd polisiau eu diweddarau. Mae angen i'r staff fod yn gyfarwydd â'r holl bolisiau i sicrhau eu bod yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau.	Rheoliad 8 (1), (2), (6) a (9) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau Iechyd a Gofal - Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd a 7.1 Y gweithlu	Rydym wedi adolygu ein polisiau a gwaredu'r rhai llai perthnasol. Mae'r rhain wedi'u gosod mewn ffeil ar wahân fel bod modd eu cyrchu os oes angen. Mae dyddiadau adolygu wedi'u hychwanegu i sicrhau gwaith diweddarau rheolaidd.	Sylvia Barnes	21/5/2022
Mae angen adolygiad o hyfforddiant y staff i sicrhau bod hyfforddiant sydd wedi dod i ben	Rheoliad 17 (1) (a) a 22 (4)(c) o Reoliadau Deintyddiaeth	Rydym wrthi'n diweddarau'r ffeiliau staff i gynnwys taflen cofnodion a fydd yn dangos y cyrsiau a fynychwyd a'r	Sylvia Barnes a Hywel Price	30/6/2022

yn cael ei gwblhau, yn benodol diogelwch tân.	Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 7.1 Y gweithlu	datblygiad proffesiynol parhaus a gynhaliwyd, pryd y'i cynhaliwyd, a phryd y dylai gael ei wneud nesaf. Cynhaliwyd cwrs hyfforddi diogelwch tân, a oedd yn cynnwys beth i'w wneud os bydd tân, fel rhan o'r broses sefydlu ar gyfer aelod newydd o staff.		
Dylid ystyried cael cofnod hyfforddiant staff. Byddai hyn yn helpu i gael golwg gyffredinol ar gydymffurfedd hyfforddiant a sicrhau y gellir trefnu cyrsiau heb fod angen chwilio pob ffeil hyfforddiant staff.	Rheoliad 17 (1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 7.1 Y gweithlu	Rhaid i bob aelod o staff gael cofnod fel tudalen flaen eu ffeil staff a fydd yn dangos y cyrsiau a fynychwyd a'r rhai sydd angen eu mynychu. Bydd dyddiadau presenoldeb a dyddiadau adnewyddu hefyd yn cael eu cynnwys.	Sylvia Barnes	30/6/2022
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cael arfarniad blynyddol a goruchwyliaeth reolaidd.	Rheoliad 17 (4) (a) a (b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Rydym wedi cael dau aelod newydd o staff yn y 12 mis diwethaf, a disgwylir i un ohonynt gael ei arfarniad blynyddol yn	Hywel Price	30/6/2022

	Safonau Iechyd a Gofal - 7.1 Y gweithlu	ystod y ddau fis nesaf, a'r llall ymhen naw mis. Bydd ein dau aelod arall o staff yn cael eu rhai nhw yn ystod y mis nesaf.		
--	---	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Hywel Price

Swydd: Rheolwr cofrestredig / prif ddeintydd

Dyddiad: 25/05/2022